## Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Equality of Opportunity Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Gorffennaf 2009

Annwyl Gyfaill

Mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnal ymchwiliad i wahaniaethu yn erbyn pobl sy'n byw gyda HIV gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, a hynny mewn lleoliadau gofal iechyd ac mewn lleoliadau eraill.

Er mwyn cynorthwyo'i ymchwiliad, mae'r Pwyllgor yn casglu tystiolaeth ysgrifenedig ar nifer o faterion a byddai'n ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau canlynol sy'n berthnasol i chi.

**Enghreifftiau o'r gwahaniaethu y mae pobl sy'n byw gyda HIV mewn lleoliadau gofal iechyd yn ei wynebu**

Os ydych chi'n byw gyda HIV, neu'n gweithio i sefydliad sy'n darparu cymorth i bobl sy'n byw gyda HIV:

- a fu achlysur o wahaniaethu yn eich erbyn erioed, neu a ydych yn ymwybodol o wahaniaethu yn erbyn pobl sy'n byw gyda HIV, mewn lleoliad gofal iechyd (e.e. lleoliad meddyg teulu, y deintydd, mewn ysbyty) neu weithiwr gofal iechyd mewn lleoliad arall? Os hynny, dywedwch wrthym beth ddigwyddodd.

**Polisïau a gweithdrefnau a ddefnyddir gan sefydliadau gofal iechyd a gweithwyr gofal iechyd mewn perthynas â'r firws HIV a / neu bobl sy'n byw gyda HIV**

Os yw'n briodol, rhowch:

- drosolwg o ganllawiau neu bolisïau presennol o ran trosglwyddo'r firws HIV;



Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal / Equality of Opportunity Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8505
E-bost / E-mail : equality.comm@wales.gsi.gov.uk

- trosolwg o ganllawiau neu bolisïau presennol o ran pobl sy'n byw gyda HIV yr ydych chi neu'r bobl rydych yn eu cynrychioli yn dod i gysylltiad â hwy;
- copïau o ganllawiau perthnasol, os yn bosibl.

**Hyfforddiant ac addysg ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd o ran HIV a gwahaniaethu ar sail anabledd a chodi ymwybyddiaeth o hynny**

- Sut y caiff ymwybyddiaeth o'r canllawiau clinigol diweddaraf o ran y firws HIV a materion sy'n effeithio ar bobl sy'n byw gyda HIV ei godi ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a staff mewn lleoliadau gofal iechyd?
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau y caiff y canllawiau diweddaraf eu gweithredu?
- Sut y caiff ymwybyddiaeth o anghyfreithlondeb gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n byw gyda HIV neu AIDS o dan ddeddfwriaeth bresennol ei godi ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a staff mewn lleoliadau gofal iechyd o ran y gwasanaethau a ddarperir ganddynt?
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl sy'n byw gyda HIV?

**A oes unrhyw bwyntiau perthnasol eraill yr hoffech dynnu sylw atynt?**

Nodwch fanylion unrhyw beth arall y credwch sy'n berthnasol i'r ymchwiliad.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Nid oes angen i'r holl gyflwyniadau ystyried yr holl feysydd y cyfeirir atynt uchod ac mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth ysgrifenedig gan unigolion a sefydliadau. Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref 2009.

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor yn y cyfeiriad isod erbyn dydd Gwener 2 Hydref 2009. Os yn bosibl, dylech gyflwyno fersiwn electronig o'r dystiolaeth ar ffurf MS Word neu Rich Text a'i hanfon at: equality.comm@wales.gsi.gov.uk.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau gan y rhai sydd ar y rhestr ddosbarthu amgaeedig. Byddai'n ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolyn neu sefydliad nad ydynt wedi eu cynnwys ar y rhestr ond a fyddai'n falch o'r cyfle i gyfrannu at yr adolygiad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi cael ei roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol gyda gwahoddiad agored i gyflwyno barn.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i ymchwiliad. O ganlyniad gall eich ymateb ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol i adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Ond, os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd yn y gorffennol wedi'i dileu gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, dylech nodi'n glir pa rannau na ddylid eu datgelu, ynghyd â'ch rhesymau dros atal y deunydd dan sylw.  Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.



**Ann Jones AC / AM**
**Cadeirydd / Chair**
ann.jones@wales.gov.uk

**Rhestr o'r rhai yr ymgynghorir â hwy**

**Cyrff cynrychioliadol HIV/Aids**
AIDS Trust Cymru
Grŵp Cyfranogiad Cleifion Clinig HIV Abertawe
Terrance Higgins Trust Cymru
Grwpiau Cyfranogi Cadarnhaol Rhwydwaith HIV Cymru

**Darparwyr gofal iechyd**
Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd
Cymdeithas Ddeintyddol Prydain
Cymdeithas Feddygol Prydain
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Coleg Brenhinol y Nyrsys
Cymdeithas Ymarferwyr Nyrsio Cymru (is-grŵp i Goleg Brenhinol y Nyrsys)
Cymdeithas Awdioleg Prydain
Cymdeithas Ddeieteg Prydain
Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
Darparwyr gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau
Cyrff hyfforddi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol
Galw Iechyd Cymru
Cydffederasiwn GIG Cymru

**Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC)**
Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
CIC Abertawe
CIC Bro Morgannwg
CIC Brycheiniog a Maesyfed
CIC Caerdydd
CIC Castell-nedd / Port Talbot
CIC Ceredigion
CIC Clwyd
CIC Dwyrain Conwy
CIC Gogledd Gwynedd
CIC Gorllewin Conwy
CIC Gwent
CIC Meirionnydd
CIC Merthyr a Chwm Cynon
CIC Pen-y-bont ar Ogwr
CIC Pontypridd a Rhondda
CIC Sir Benfro
CIC Sir Gaerfyrddin
CIC Trefaldwyn
CIC Ynys Mon

**Cynghorau Sir**
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych

Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Gaerfyrddin
Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir y Fflint
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Caerdydd
Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir Ynys Mon
Dinas a Sir Abertawe

**Byrddau Iechyd Lleol**
Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe
Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent
Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd
Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili
Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd
Bwrdd Iechyd Lleol Castell-nedd Port Talbot
Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion
Bwrdd Iechyd Lleol Conwy
Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd
Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful
Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr
Bwrdd Iechyd Lleol Powys
Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf
Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro
Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych
Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy
Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin
Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint
Bwrdd Iechyd Lleol Tor-faen
Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam
Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Mon

**Ymddiriedolaethau'r GIG**
Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent
Ymddiriedolaeth GIG Betsy Cadwallader
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda
Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Abertawe Bro Morgannwg

**Asiantaethau swyddogol**
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

**Cynghorau Gweithredu Gwirfoddol**
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Cynghrair Gwirfoddol Tor-faen
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd
Interlink
Mantell Gwynedd
Medrwn Mon

**Y Sector Gwirfoddol**
Achub y Plant
Age Concern Cymru
Anabledd Cymru
Barnardo's Cymru
Black Association of Women Step Out Ltd. (BAWSO)
CAB Cymru
Canolfan Gyngor Somali
Chwarae Teg
Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
Croesffyrdd Cymru
Cydbwyllgor Lleiafrifoedd Ethnig Cymru
Cydgymdeithas Bwylaidd Gymreig
Cymdeithas Fietnameaidd De Cymru
Cymdeithas Gweithwyr Proffesiynol Mwslimaidd
Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA )
Cymdeithas Lles Bangladeshi (BWA)
Cymdeithas Pakistan o Gyngor Cymru Asiaidd Casnewydd a Gwent
Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru
Cymdeithas Saheli Cymru Gyfan
Cymdeithas y Gymuned Sudaneaidd
Cymorth i Ddioddefwyr Cymru
Cyngor Asiaidd Cymru
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cynhalwyr Cymru
Grŵp Menywod Asiaidd
Grŵp Menywod Bangladesh
Llais Ffoaduriaid Cymru
NSPCC Cymru
Plant yng Nghymru
Pwyllgor Gwasanaeth Cymunedol Tsieineaidd

Race Equality First
Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon
Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru
Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig (MEWN Cymru)
Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon
Shelter Cymru
Stonewall Cymru
Y Cyd-gyngor er Lles Mewnfudwyr
Y Samariaid

**Sefydliadau Crefyddol**
Archesgobaeth Gatholig Caerdydd
Byddin yr Iachawdwriaeth
Cynghrair Efengylaidd Cymru
Cytun – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Yr Eglwys yng Nghymru

**Sefydliadau Ymchwil**
Prosiect Deddfau'r DU a HIV/AIDS
Sefydliad Joseph Rowntree
Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol
Y Ganolfan Ymchwil i Bolisi Mudo